

**Fforwm Cymunedau Ffydd  
Cofnodion Cyfarfod 16 Ebrill 2018  
Ystafell Ddigwyddiadau, Parc Cathays**

**Yn bresennol:**

Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip	Dirprwy Gadeirydd
John Davies, Archesgob yr Eglwys yng Nghymru	Yr Eglwys yng Nghymru
Carol Wardman	Yr Eglwys yng Nghymru
Elfed Godding	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Viv Bartlett	Cyngor Baha'i Cymru
Christine Abbas	Cyngor Baha'i Cymru
Aled Edwards	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Gethin Rhys	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Stanley Soffa	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Lisa Gerson	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Joga Singh	Cyngor Sikhiaid Cymru
Gurmit Singh Randhawa	Cyngor Sikhiaid Cymru
Dr Taikya David Morgan	Cyngor Bwdaidd Cymru

**Ymddiheuriadau:**

Prif Weinidog Cymru	Cadeirydd
Philip Manghan	(Cynrychiolydd) Archesgob Caerdydd
Nordzin Pamo	Cyngor Bwdaidd Cymru
Naran Patel	Cyngor Hindwiaid Cymru
Ahmed Darwish	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Saleem Kidwai	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Nirmala Pisavadia	Cyngor Hindwiaid Cymru
Peter Richards	Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

**Cyflwyniadau:**

Rocio Cifuentes Cyfarwyddwr Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru  
Ginger Wiegand, Rheolwr Prosiect, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

**Cyflwyniadau gan Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

Sinead Gallagher  
Steve Chapman

**Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

Paul Dear	Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb
Emma Small	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Andrea Adams	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant

**Croeso a Chyflwyniadau**

Cyflwynodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (y 'Gweinidog') bawb i'r cyfarfod. Eglurodd y Gweinidog fod gan Brif Weinidog Cymru fusnes brys a oedd yn ei atal rhag bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Croesawodd y Gweinidog bawb i gyfarfod cyntaf y Fforwm yn 2018. Cofnododd ei diolch i Jim Stewart a Surinder Channa, a oedd wedi rhoi'r gorau i fod yn aelodau, am eu holl gefnogaeth a gwaith caled fel aelodau o'r Fforwm dros y deng mlynedd ddiwethaf.

Estynnodd y Gweinidog groeso i'r aelodau newydd Joga Singh a Gurmit Singh, a oedd yn cynrychioli Cyngor Sikhiaid Cymru.

## **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir.

## **Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Roedd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghyd â diweddariadau wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu nodi.

## **Materion yn Codi**

### **Diweddariad: Cyfarfod Ffydd a Chydlyniant Cymunedol Gweinyddiaeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.**

Dywedodd y Gweinidog wrth y Fforwm mai hi fydd yn Cadeirio cyfarfod nesaf Cyfarfod Ffydd a Chydlyniant Cymunedol Gweinyddiaeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghaerdydd ar 19 Ebrill. Hwn fydd trydydd cyfarfod y grŵp. Bydd y Gweinidog yn rhannu canlyniadau'r cyfarfod hwnnw gyda'r Fforwm yn y cyfarfod nesaf.

### **Diweddariad: Adolygiad o Brotocol Cymru Gyfan - Plant sydd ar Goll**

Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad o'r cyfarfod diwethaf am adolygiad Llywodraeth Cymru o Brotocol Cymru Gyfan – Plant sydd ar Goll. Mae'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant a'i swyddogion wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i drafod y materion a gyflwynwyd yn adroddiad Cymdeithas y Plant ac maent wedi rhannu safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o'u cartref neu o'u lleoliad gofal.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen amlasiantaeth wedi cwblhau'r ddogfen ddrafft 'Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sydd ar goll o'u cartref neu o'u lleoliad gofal' sydd i'w ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol newydd.

Bydd y cyfarwyddyd ymarfer drafft hwn yn cael ei ddarparu ar gyfer Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro a fydd yn cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol fel rhan o'u gwaith ehangach i ddatblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol ar ran ADSS Cymru a'r Byrddau Diogelu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i alluogi'r gwaith hwn i ddigwydd.

## **Ymgyrch Llythyrau Maleisus Diweddar**

Rhoddodd y Gweinidog sylw i fater yr ymgyrch llythyrau maleisus diweddar a oedd wedi'i anelu at gymunedau Mwslimaidd. Roedd nifer o lythyrau "Punish a Muslim Day" wedi cael eu hanfon at Fwslimiaid yn Lloegr. Cadarnhaodd fod heddlu gwrthderfysgaeth yn ymchwilio i'r digwyddiad. Hyd y gwyddys, ni chafodd unrhyw lythyrau eu hanfon at bobl yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd y llythyrau gyhoeddusrwydd yn y wasg, a chawsant eu lleadaenu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ar 29 Mawrth fe ysgrifennodd y Gweinidog at Imamiaid a'u cynulleidfaoedd yng Nghymru i gyfleu neges o gydgfnogaeth. Dosbarthwyd y llythyr i Fosgiau ledled Cymru gyda chymorth Cyngor Mwslimiaid Cymru, rhanddeiliaid Mwslimaidd eraill a'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru a'r heddlu'n cymryd pob hysbysiad ynghylch Islamoffobia a throseddau casineb yn wirioneddol o ddifrif. Rydym yn sefyll fel un ac yn condemnio'r casineb ffaidd a fynegwyd gan leiafrif bach.

## **Eitem 1 ar yr Agenda – Cynhadledd Hil, Tlodi a Chynrychiolaeth ar 20 Mawrth Adborth a Thrafodaeth Grŵp: Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru**

Rhoddodd Rocio amlinelliad byr o waith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru. Ariennir Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Prosiect dros dair blynedd i ymgysylltu â phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yw hwn. Bydd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i gasglu barn a phrofiadau i greu sail dystiolaeth i'w defnyddio i ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn adlewyrchu anghenion cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac ymateb iddynt yn well, mewn modd sy'n ategu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, gwahoddwyd y Fforwm i gyfrannu at Bapur yn barod ar gyfer y Gynhadledd Hil, Tlodi a Chynrychiolaeth, a drefnwyd gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru ar 20 Mawrth.

Agorwyd y gynhadledd gan Jenny Rathbone AC gyda thros 100 o gynadleddwyr yn bresennol, o bob rhan o Gymru, gan gynnwys rhai o aelodau'r Fforwm. Yn ystod y dydd, cynhaliwyd trafodaethau i archwilio datrysiadau posibl i'r themâu canlynol:

- 1) Hiliaeth ac Islamoffobia
- 2) Hiliaeth mewn Ysgolion
- 3) Cynrychiolaeth Wleidyddol, a
- 4) Gwahaniaethu ym Maes Cyflogaeth/Tlodi.

Bydd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru yn paratoi Papur y Gynhadledd, a fydd yn crynhoi trafodaethau'r dydd, gyda'r nod o lunio argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yng nghyfarfod Fforwm Hil Cymru ym mis Mai. Y Gweinidog fydd yn cadeirio'r cyfarfod hwnnw.

### **Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:**

- Islamoffobia – ceir ymdeimlad bod pobl yn goddef troseddau casineb ac yn peidio â hysbysu yn eu cylch.
- Dylid sefydlu modelau rôl ethnig cadarnhaol yn y cwricwlwm ysgolion i adlewyrchu'r ffaith bod 30% o'r bobl sy'n byw yng Nghaerdydd o gefndiroedd aml-ethnig.
- Llywodraeth Cymru i arwain o ran cynrychiolaeth o blith Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar lefel rheolwyr, cyfleoedd cyflogaeth priodol ar gyfer ôl-raddedigion o grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, amrywiaeth mewn paneli cyfweld a chynrychiolaeth wleidyddol.
- Mae'n bwysig ystyried bod Llywodraeth Cymru yn fodel rôl ar gyfer gweithio gyda phobl ar draws pob ffydd.
- Fe effeithiodd y llythyrau maleisus ar y cymunedau Sikhaidd hefyd. Addysg am y gwahanol ffyddoedd mewn ysgolion – mae llawer o anwybodaeth am wahanol ffyddoedd

Diolchodd aelodau'r Fforwm i Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru am eu gwaith dros y misoedd diwethaf.

Mae Gethin Rhys a Nordzin Pamo yn aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid addysg i ystyried sut y dylid addysgu ffydd mewn ysgolion yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog y bydd yn siarad gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac yn gofyn am ychwanegu hyn at agenda'r cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Gweinidog fod Prif Weinidog Cymru wedi gofyn iddi gynnal Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ond mae rhai syniadau cychwynnol yn cynnwys: ceisiadau 'dall' i symud i broses recriwtio niwtral; yr angen am ffordd ymarferol o gasglu data ym maes cydraddoldeb; a chyflwyno hyfforddiant ynghylch rhagfarn ddarwybod yn ehangach.

Fe wnaeth aelodau annog Llywodraeth Cymru i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o waith y Fforwm Cymunedau Fydd o ran hybu cydraddoldeb a dylanwadu ar ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru.

### **Camau Gweithredu**

- **Cael diweddariad ar addysg ffydd yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.**
- **Swyddogion i ystyried sut y gellir rhoi cyhoeddusrwydd i waith y Fforwm Ffydd**

### **Eitem 2 ar yr Agenda – Cynllun Cyflogadwyedd:**

#### **Sinead Gallagher, Rheolwr Cyflenwi Cyflogadwyedd ar Draws y Llywodraeth**

Fe eglurodd Sinead fod y Cynllun Cyflogadwyedd yn pwysleisio ymrwymiad y Llywodraeth hon i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Drwy'r Cynllun, rydym

yn gweithio i helpu unigolion i fynd i'r afael â rhwystrau personol i weithio, ond mae rhai rhwystrau sefydliadol a strwythurol y mae angen mynd i'r afael â hwy ar lefel genedlaethol.

Y cam cyntaf yw cynhyrchu'r Cynllun – yn awr ei fod wedi'i gyhoeddi byddwn yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i wneud yn siŵr ein bod yn datblygu'r camau gweithredu'n ofalus ac mewn ffordd sy'n gweithio i gymunedau lleol. Fframwaith yw'r Cynllun cenedlaethol hwn, ond trwy'r modd y darperir gwasanaethau'n lleol y gallwn newid bywydau pobl go iawn.

### **Cefndir:**

Dull cynhwysol, ar draws y llywodraeth yw'r Cynllun Cyflogadwyedd, sy'n nodi camau gweithredu dan bedair thema allweddol:

- ***Darparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn:*** yn hytrach na chynnig ystod eang o raglenni penodol, byddwn yn darparu datrysiadau pwrpasol ar gyfer y rhai ac arnynt fwyaf angen cymorth cyflogadwyedd, a chymorth wedi'i deilwra sy'n amrywio o ran ei ddwystr ar gyfer yr holl bobl sy'n chwilio am waith;
- ***Pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, cefnogi eu staff a darparu gwaith teg:*** byddwn yn annog cyflogwyr i chwarae eu rhan yn y gwaith i hybu gweithleoedd iach a chynhwysol a blaenoriaethu datblygiad sgiliau fel bod y rhai mewn cyflogaeth yn gallu ffynnu yn y gwaith;
- ***Ymateb i'r bylchau presennol o ran sgiliau a'r rhai a ragwelir:*** byddwn yn defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael inni i sicrhau bod y cyflenwad yn ateb y galw ym marchnad lafur leol, ranbarthol a chenedlaethol heddiw.
- ***Paratoi ar gyfer newid sylfaenol ym myd gwaith:*** a ninnau'n ymwybodol o'r datblygiadau cyflym o ran awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a digideiddio, rydym yn datblygu system addysg a hyfforddiant a fydd yn paratoi ein cenedl ar gyfer heriau a chyfleoedd yfory.

### **Targedau**

Mae'r Cynllun hwn hefyd yn gosod targedau uchelgeisiol; cau'r bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran diweithdra ac anweithgarwch economaidd, a chodi lefelau sgiliau yng Nghymru fel eu bod yn cyfateb i gyfartaledd y DU ymhen deng mlynedd.

Er mwyn gostwng y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru fel ei bod yn cyfateb i gyfartaledd y DU, byddai angen i ni gynorthwyo oddeutu 24,300 o bobl i gael gwaith (pobl 16-64 oed heb gynnwys myfyrwyr a phobl wedi ymddeol).

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni ostwng nifer y bobl sy'n symud i mewn ac allan o waith ansefydlog, byrdymor. Bydd ein cymorth cyflogadwyedd newydd yn cyflawni hyn trwy helpu pobl i gael swyddi sy'n cyd-fynd â'u huchelgeisiau a'u sgiliau, yn hytrach na gwithio pobl i mewn i'r rôl gyntaf sydd ar gael ar gyflog isel.

Estynnodd y Gweinidog wahoddiad i'r Fforwm ystyried syniadau ar gyfer ymgysylltu ymhellach. A oes grwpiau neu gymunedau penodol y dylem gwrdd â hwy? Mae gan y Gweinidog ddiddordeb mewn gwybod am unrhyw gyflogwyr sydd wedi dangos arfer arbennig o dda mewn perthynas â lles eu gweithle.

### **Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:**

- Mae ffynhonnell ddigyffwrdd a allai ddarparu sgiliau y mae eu dirfawr angen o fewn y gymuned ffoaduriaid.
- Mae Cyngor Caerdydd yn archwilio prosiect a fyddai'n gweithio gyda meddygon cymwysedig fel rhan o'r rhaglen adsefydlu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo prosiect 'gwaith teg'
- Mae llawer yn digwydd yng Nghymru yn y diwydiant technoleg – ond mae rhwystrau i recriwtio pobl â'r sgiliau cywir yn dal i fodoli.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael – cysylltu cyllid Llywodraeth Cymru â busnesau a sefydliadau lle ceir tystiolaeth o ymrwymiad i hybu amrywiaeth yn y gweithle.
- Ni ddylai pobl sy'n byw mewn lleoliadau gwledig yng Nghymru fod dan anfantais o ran cael mynediad at gyflogaeth grefftus iawn mewn meysydd uwchdechnolegol

### **Eitem 3 ar yr Agenda – Caethwasiaeth Fodern – datblygiadau diweddar: Steve Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth**

Eglurodd y Gweinidog nad yw 'Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth' yn gyfrifoldeb datganoledig a bod llawer o'r ysgogiadau'n gorwedd gyda Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â chaethwasiaeth ac mewn llawer o ffyrdd mae Cymru'n arwain y ffordd yn y DU.

Eglurodd fod Steve wedi mynychu cyfarfod cynharach yn 2016 a'i bod wedi ei wahodd i roi diweddariad i'r Fforwm ar ddatblygiadau diweddar yn y gwaith pwysig hwn.

Dywedodd Steve ein bod wedi sefydlu Grŵp Arwain Cymru ar Atal Caethwasiaeth i ddarparu arweinyddiaeth ac arweiniad strategol o ran sut yr ydym yn mynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru ac i roi'r cymorth gorau posibl i oroeswyr.

Eglurodd ein bod wedi rhannu'r gwersi o Gymru gyda phartneriaid eraill gan gynnwys Adrannau Llywodraeth y DU a Chomisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol y DU, a'n bod yn dechrau ennill bri rhyngwladol am ein gwaith ar yr agenda hon.

Mae caethwasiaeth yn drosedd cymhleth o ran ymchwilio iddo ac erlyn cyflawnwyr, a dyna pam ein bod wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r Cwrs Troseddau Cyfundrefnol a Chaethwasiaeth Fodern. Darpariaeth hyfforddi ar y cyd dros dridiau yw hon ar gyfer Uwch Swyddogion Ymchwilio ym maes Gorfodi'r Gyfraith ac Erlynwyr y Goron ac Adfocadau'r Goron .

Tan yn ddiweddar, roedd caethwasiaeth yn drosedd 'cudd'; mae nifer y troseddau yr hysbysir yn eu cylch yn dal i fod yn is na'r nifer a gyflawnir. Dyna pam ein bod wedi cyflwyno systemau casglu data newydd yng Nghymru a pham ein bod yn dal i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu sail dystiolaeth well sy'n rhoi adlewyrchiad mwy cywir o lefel caethwasiaeth yng Nghymru.

Mae Steve yn gweithio gyda phartneriaid i roi cymorth i ffoaduriaid sy'n dod i Gymru a fydd yn helpu i liniaru'r risg y bydd pobl yn camfanteisio arnynt.

Mae disgwyl y bydd codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion yr hysbysir yn eu cylch. Trwy hysbysu gwell y gallwn helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt a bod cyflawnwyr y trosedd erchyll hwn yn gallu cael eu dwyn o flaen eu gwell.

Fe ddechreuodd Llywodraeth Cymru ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhagor o hyfforddiant am ddim ar gyfer tuag 8,000 o bobl yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau megis BAWSO a Barnardo's Cymru. Rydym yn achub mwy o bobl. Yn 2017, cafodd 193 o bobl eu hachub o fywyd mewn caethwasiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran y mater hwn.

#### **Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:**

- Mae'r Fforwm wedi ymgysylltu â'r hyfforddiant am ddim a diolchodd i Steve am ei gyngor. Mae Adran 4 yn nesáu at ddiwedd y broses – mae angen i ni glywed eu straeon
- Ceir menter mewn ysgolion trwy Raglen Gyswllt Cymru Gyfan
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cod Ymarfer. Mae cyflogwyr yn ymrwymo i'r Cod – yn enwedig lle mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi i sefydliadau.

**Cam Gweithredu:** Yr Ysgrifenyddiaeth i e-bostio'r ddolen i'r Cod Ymarfer at aelodau'r Fforwm.

#### **Unrhyw Fater Arall**

Dim byd.

#### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun 5 Tachwedd yn yr Ystafell Ddigwyddiadau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd am 11.30am.